Atodiad 2

# FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol - Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy’n fwy cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

Atodiad 2

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Rhiannon Edwards

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Louise Davies

Maes Gwasanaeth: Datblygu Cymunedol

Dyddiad: Chwefror 2025

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu/Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ■ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

Strategaeth Bwyd Cynaliadwy

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Mae Storm Dennis, Pandemig Coronafeirws, ansicrwydd Brexit, a'r effeithiau costau byw dilynol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu ateb tymor canolig i hirdymor i gynaliadwyedd bwyd ar draws Rhondda Cynon Taf; yn enwedig gan fod llawer o'r mentrau a gafodd eu rhoi ar waith yn atebion tymor byr i sefyllfaoedd digynsail.
Ym mis Tachwedd 2020, cytunodd Uwch Reolwyr y Cyngor i weithio ar y cyd â phartneriaid perthnasol i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â thlodi bwyd a sefydlu Rhwydwaith Ffyniant Bwyd Rhondda Cynon Taf a Llwybr Ymateb Bwyd, a fyddai'n ceisio sicrhau ffordd ymlaen fwy cynaliadwy.

Cafodd dull Lleoedd Bwyd Cynaliadwy y DU ei nodi gan swyddogion fel y model enghreifftiol ar gyfer creu 'Rhwydwaith Ffyniant Bwyd'.

Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn canolbwyntio ar chwe mater allweddol:

Atodiad 2

**Mater Allweddol 1:** Mabwysiadu ymagwedd strategol a chydweithredol at lywodraethu a gweithredu mewn perthynas â bwyd.

**Mater Allweddol 2:** Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth fwyd weithredol a mudiad bwyd da lleol.

**Mater Allweddol 3:** Mynd i'r afael â thlodi bwyd, afiechyd sy'n gysylltiedig â diet a mynediad at fwyd iach fforddiadwy.

**Mater Allweddol 4:** Creu economi bwyd cynaliadwy bywiog, ffyniannus ac amrywiol.

**Mater Allweddol 5:** Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynaliadwy.

**Mater Allweddol 6:** Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a byd natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.

Caiff y gwaith ei arwain gan **Grŵp Llywio Bwyd Rhondda Cynon Taf,** sydd â Chylch Gorchwyl ac sy'n cyfarfod bob deufis. Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys naw aelod craidd sy'n cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Interlink RCT, Strategaeth Bryncynon, FareShare Cymru, Carfan Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Grow Rhondda a Chroseo i'n Coedwig, Down to Zero a Pete's Shop. Mae'r gwaith wedi bod yn canolbwyntio ar gynyddu aelodaeth y Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 116 o unigolion ar draws 77 o sefydliadau, ac yn dilyn mewnbwn ac awgrymiadau gan bartneriaid, mae'r Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy yn Rhondda Cynon Taf wedi'i henwi'n **'Bartneriaeth Bwyd RhCT'.** Mae gan Bartneriaeth Bwyd RhCT ddau is-grŵp gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter i hwyluso cysylltiadau a chydweithio rhwng ystod eang o ffactorau bwyd: yr **Is-grŵp Tyfwyr Cymunedol** a'r **Is-grŵp Pantri Bwyd**.

Dyfarnwyd y wobr Efydd i Bartneriaeth Bwyd RhCT gan Leoedd Bwyd Cynaliadwy i gydnabod y gwaith a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ymrwymiad gan y Cyngor i ddod yn ddeiliad gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Er mwyn cyflawni'r wobr Arian mae angen strategaeth fwyd gynhwysfawr i arwain gwaith y bartneriaeth dros o leiaf 3 blynedd.

Mae'r strategaeth arfaethedig yn amlinellu'r darlun lleol presennol o'r system fwyd yn Rhondda Cynon Taf a'r prif faterion sy'n effeithio ar drigolion, iechyd, diogeledd bwyd a'r hinsawdd. Mae'r 6 mater allweddol a amlinellwyd gan Leoedd Bwyd Cynaliadwy wedi'u nodi fel y blaenoriaethau yn y strategaeth ac wedi'u haddasu i gyd-destun lleol. Mae'r cynllun gweithredu ychwanegol yn rhoi rhagor o fanylion am yr allbynnau penodol o'r strategaeth a fydd yn cael ei dyfeisio

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Er nad oes gofyniad statudol ar y Cyngor i ddarparu Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ers 2022 i greu Partneriaethau Bwyd Lleol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r llwybrau a'r pwyntiau i'w hystyried a ganlyn hefyd wedi llywio datblygiad Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf.

Atodiad 2

- Mae’r strategaeth arfaethedig yn cyd-fynd yn agos â phob un o’r saith nod Llesiant allweddol yn Neddf Cenedlaethau’r Dyfodol.

- *Ffyniant* drwy ganolbwyntio ar yr economi bwyd lleol yn Rhondda Cynon Taf a sicrhau bod modd i'r holl drigolion gael mynediad at fwyd fforddiadwy
- *Cydnerthedd* drwy ganolbwyntio ar egwyddorion economi gylchol gwastraff bwyd a bwyd dros ben
- *Cydraddoldeb* drwy ganolbwyntio ar y system fwyd leol yn Rhondda Cynon Taf sy’n deg ac yn gyfartal i bawb
- *Iechyd* drwy gydweithio â chydweithwyr ym maes iechyd a grymuso ein trigolion i ymgysylltu â chamau gweithredu iach o ran bwyd
- *Cymunedau cydlynol* drwy feithrin cydweithrediad a chydweithio ar draws pob sector bwyd
- *Diwylliant bywiog a'r Gymraeg* drwy ddathlu hanes a diwylliant bwyd Cymru
- *Cyfrifoldeb byd-eang* drwy ganolbwyntio ar gadwyni cyflenwi byrrach a mwy lleol a gwerthuso effaith y system fwyd yn Rhondda Cynon Taf

- Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf: Gweithio Gyda'n cymunedau 2024-2030 Pobl a Chymunedau '*cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus*'.

- *Pobl a Chymunedau* - nod y strategaeth yma yw creu system fwyd decach a mwy cynaliadwy yn Rhondda Cynon Taf sy’n galluogi'r holl drigolion ac ymwelwyr i fwynhau bywydau iach a bodlon
- *Gwaith a Busnes* - drwy weithio gyda busnesau a chynhyrchwyr bwyd lleol a chreu economi bwyd lleol bywiog
- *Natur a'r Amgylchedd* - mae'r system fwyd yn cael effaith enfawr ar ein hamgylchedd trwy'r ynni sydd ei angen i dyfu a gweithgynhyrchu bwyd i'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â logisteg bwyd. Nod y strategaeth yma yw mynd i’r afael â’r argyfwng natur a hinsawdd sy’n ymwneud â bwyd drwy weithio i fyrhau cadwyni cyflenwi bwyd yn y sir a lleihau gwastraff bwyd
- *Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg* - drwy ddathlu cnydau treftadaeth lleol a'n diwylliant bwyd a'n treftadaeth ar draws Rhondda Cynon Taf

- Strategaeth Hinsawdd Ystyriol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2022-2025

Er bod y Strategaeth Hinsawdd Ystyriol bellach wedi’i disodli gan Gynllun Corfforaethol newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Gweithio gyda'n Cymunedau 2024-2030, mae strategaeth Bwyd Cynaliadwy RhCT yn cyflawni'n agos y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Hinsawdd. Yn enwedig o ran mynd i'r afael ag effaith y system fwyd ar ein hamgylchedd yn Rhondda Cynon Taf a sicrhau bod yr holl drigolion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd yn eu hardaloedd lleol.

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 'Gweithio Gyda'n Cymunedau'
Polisïau a chynlluniau Llywodraeth Cymru
Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Atodiad 2

**Ymgorfforri camau i gynhwysiant:**

- Ymgynghoriad cymunedol: dydy'r Strategaeth ddim yn gwneud rhagdybiaeth ynghylch pa gefndiroedd amrywiol sy'n bodoli yn ein hardal. Yn hytrach mae'n ceisio gweithio gyda thrigolion lleol a grwpiau lleiafrifol i sicrhau cynhwysiant
- Ail-werthuso asedau presennol: Mae'n bosibl y bydd newid o ran y dehongliad o'r ddarpariaeth fwyd bresennol yn RhCT yn datgelu anghenion sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol y byddai modd mynd i'r afael â nhw;
- Partneriaethau strategol: Partneriaethau gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn arferion cynhwysiant i gryfhau adnoddau ac osgoi agwedd arwynebol.

1.e) Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

- Defnyddwyr Gwasanaeth ■
- Gweithwyr ■
- Cymuned ehangach ■

## ADRAN 2 - PRAWF SGRINIO - A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ynghylch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn negyddol, ond gall effeithio ar grŵp â nodwedd benodol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oed** (Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn). | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr. Mae blaenoriaeth 3 y strategaeth yn canolbwyntio ar faeth a sicrhau bod modd i bobl o bob oed yn Rhondda Cynon Taf gael mynediad at fwyd iach. Mae'r flaenoriaeth yma'n canolbwyntio ar weithio ar y cyd o fewn a thu allan i'r Cyngor i roi cyfleoedd ar waith i gymunedau a thrigolion ennill sgiliau coginio a bwyta'n iachach a byw bywydau iach a bodlon trwy roi polisïau a | Mae'r Strategaeth yn ceisio adeiladu ar lwyddiant y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud o amgylch y sir yn rhan o Bartneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf.<br><br>Mae bwyta'n dda, ni waeth beth fo'ch oedran, yn lleihau'r tebygolrwydd o ddatblygu clefydau niweidiol sydd weithiau'n cyfyngu ar fywyd fel Diabetes Math 2, problemau cardiofasgwlaidd a gorbwysedd. Mae'n bwysig cynnal diet iach er mwyn byw bywyd iach a boddhaus wrth fynd yn hŷn. Yn ôl dadansoddiad gan Age UK mae dros draean o bobl dros 60 oed wedi gorfod torri'n ôl ar fwyd oherwydd yr argyfwng costau byw[1]. Ar ben hynny, dangosodd adolygiad gan Public |

[1] https://www.ageuk.org.uk/latest-press/articles/2023/almost-a-third-of-over-60s--equivalent-to-4.2million---have-recently-cut-back-on-food-or-groceries-due-to-the-cost-of-living-crisis/#:~:text=Worryingly%2C%20new%20analysis%20by%20Age,more%20per%20year%5B1%5D%20since

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gweithgareddau ar waith sy'n hwyluso hyn. | Health England yn 2017[2] bod peidio â chynnal diet iach wrth fynd yn hŷn yn arwain at y canlynol:<br><br>- 65% yn fwy o ymweliadau i'r meddyg teulu<br>- 82% yn fwy o dderbyniadau i'r ysbyty<br>- Arhosiad 30% yn hwy yn yr ysbyty<br><br>Mae cael maethiad da yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol er mwyn i'n plant gael y dechrau gorau mewn bywyd. Yn y cyfnod tyngedfennol yma, bydd sylfeini datblygiad plentyn yn y dyfodol yn cael eu sefydlu gan effeithio ar eu hiechyd a'u lles gydol oes. Mae diet gwael yn arwain at ordewdra, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg o ddatblygu amrywiaeth o gyflyrau iechyd megis clefyd y galon, strôc, pwysedd gwaed uchel, diabetes a rhai mathau o ganser.[3] Mae plant gordew yn llawer mwy tebygol o fod yn oedolion gordew.[4] Yn lleol, mae dros chwarter yr holl blant yn Rhondda Cynon Taf dros eu pwysau neu'n ordew (28.2%).[5]<br><br>Camau gweithredu yn y strategaeth. |

[2] https://www.gov.uk/government/publications/helping-older-people-maintain-a-healthy-diet-a-review-of-what-works/helping-older-people-maintain-a-healthy-diet-a-review-of-what-works
[3] Reilly, J. ac eraill, 2003. Health consequences of obesity. Archives of Disease in Childhood.
[4] Simmonds, M. ac eraill, 2016. Predicting adult obesity from childhood obesity: a systematic review and meta-analysis. Obesity Reviews.
[5] https://phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/child-measurement-programme-dashboard/

Atodiad 2

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Cadarnhaol | Blaenoriaeth 3 yn y strategaeth yw bwyd maethlon i bawb a mynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd. Mae bwyd da yn hawl nid yn fraint, a dylai bod modd i bawb yn Rhondda Cynon Taf fwyta'n iach bob dydd, waeth pwy ydyn nhw, na'r hyn maen nhw'n ei wneud, na lle maen nhw'n byw. Rydyn ni'n gwybod bod ein diet yn effeithio ar iechyd hirdymor. Mae modd i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor ei chael yn anoddach cael mynediad at fwyd iach a chynnal diet iach. Drwy fynd i'r afael ag afiechyd sy'n gysylltiedig â bwyd a diffyg diogeledd bwyd drwy ddull cydweithredol, mae modd i ni helpu trigolion i fyw bywydau mwy hir a mwy iach. | Mewn dadansoddiad gan 'The Food Foundation' ym mis Rhagfyr 2023, canfuwyd bod bron i 4 o bob 10 cartref ag oedolyn sydd wedi'i gyfyngu'n sylweddol gan anabledd wedi profi diffyg diogeledd bwyd, yn bennaf o ganlyniad i anghydraddoldebau incwm sy'n cael ei brofi gan bobl anabl. Ac roedd y cyfraddau hyn yn anghymesur â lefelau diffyg diogeledd bwyd mewn cartrefi heb oedolyn ag anabledd.<br><br>Yn aml, gall fod gan bobl anabl ofynion dietegol penodol sy'n gysylltiedig â'u cyflwr a all fod yn fwy drud.[6] Yn ogystal, gall paratoi bwyd fod yn anodd hefyd oherwydd cyfleusterau coginio annigonol neu allu corfforol. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan 'The Food Foundation', dywedodd traean o'r rhai a oedd wedi'u cyfyngu gan anabledd bod y ffaith nad oedden nhw'n ddigon iach i siopa neu baratoi bwyd yn ffactor sy'n achosi eu diffyg diogeledd bwyd. Gall methu â choginio olygu bod pobl anabl yn fwy dibynnol ar fwydydd wedi'u paratoi ymlaen llaw sydd ond angen ychydig iawn o waith paratoi, sy'n aml yn opsiynau llai iach ac wedi'u prosesu'n fwy.[7]<br><br>Gall anableddau dysgu hefyd effeithio ar iechyd person sy'n gysylltiedig â diet. Mae tri deg pump y cant o bobl ag anabledd dysgu yn cael eu hystyried yn ordew, sy'n uwch na'r hyn a welir ar gyfer y rhai nad oes gyda nhw |

[6] https://lordslibrary.parliament.uk/cost-of-living-impact-of-rising-costs-on-disabled-people/
[7] https://foodfoundation.org.uk/sites/default/files/2023-12/Disabilities%20briefing_FINAL.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | anabledd dysgu[8].<br><br>Camau gweithredu yn y strategaeth |
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr i ymgysylltu â bwyd ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | O'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, sydd wedi llywio datblygiad y Strategaeth, ni fu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.<br><br>Serch hynny, bydd tystiolaeth yn cael ei harchwilio pan fydd prosiectau ac ymyraethau penodol yn cael eu darparu o dan y themâu arfaethedig yn y Strategaeth. |

[8] https://www.mencap.org.uk/ahealthierme

Atodiad 2

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Priodasau a Phartneriaethau Sifil**<br>*(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr i ymgysylltu â bwyd ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | O'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, sydd wedi llywio datblygiad y Strategaeth, ni fu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth**<br>*(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Cadarnhaol | Mae iechyd a lles menywod beichiog yn dylanwadu ar ddatblygiad y plant yn y groth ac ym mlynyddoedd cynnar bywyd.<br><br>Mae'r Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yn ceisio sicrhau bod modd i bawb gael mynediad at fwyd maethlon a fforddiadwy. Mae'r drydedd flaenoriaeth yn cynnwys camau gweithredu a nodau i fynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud ag iechyd a lles menywod beichiog a rhieni ifainc. | Mae babanod yn y groth ac mewn babandod yn dibynnu ar ddeiet y fam i ddatblygu a thyfu. Mae astudiaethau wedi dangos bod y diet y mae mam yn ei fwyta pan mae hi'n feichiog a phan fydd hi'n bwydo ar y fron yn cael effaith ar eu hiechyd yn y tymor hwy[9].<br><br>Mae Talebau Cychwyn Iach yn gynllun sydd wedi'i gynllunio i gefnogi mamau ifainc i brynu bwydydd iach a chael fitaminau am ddim. Mae'n agored i'r rhai sy'n fwy na 10 wythnos yn feichiog neu sydd â phlentyn o dan 4 oed ac yn hawlio budd-daliadau. Mae Carfan Datblygu'r Gymuned yn mynd ati i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar Dalebau Cychwyn Iach ledled y sir, gan fonitro ardaloedd lle mae'r nifer sy'n manteisio arnyn nhw'n isel a gweithio gyda thrigolion a |

[9] https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/articles/PMC9182711/

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | grwpiau cymunedol i fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. Ym mis Mehefin 2022 roedd y nifer a fanteisiodd ar Dalebau Cychwyn Iach yn Rhondda Cynon Taf ar 56%, gan gynyddu i 78% ym mis Rhagfyr 2023.[10]. Dywedodd menywod fod defnyddio'r talebau hyn wedi cynyddu nifer ac ystod y ffrwythau a'r llysiau roedden nhw'n eu defnyddio ac yn gwella ansawdd diet y teulu, ac wedi sefydlu arferion da ar gyfer y dyfodol.[11] |
| **Hil**<br>*(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr; fodd bynnag, mae cyfleoedd cynyddol i ddathlu nid yn unig diwylliant a threftadaeth bwyd Rhondda Cynon Taf ond hefyd yr ystod o fwyd sy'n dod o'r holl ddiwylliannau sy'n rhan o'n cymunedau.<br><br>Mae'r Strategaeth yn mynd ati i geisio:<br><br>•Dathlu treftadaeth fwyd:<br>Mae ein hanesion personol o ran bwyd yn gweithredu fel cyfrwng pwerus ar gyfer cysylltu pobl amrywiol sy'n byw yn y rhanbarth heddiw. Mae meithrin dealltwriaeth o wahanol naratif yn cryfhau empathi, yn lleihau "arall", ac yn meithrin | Mae angen ystyried bwyd sy'n ddiwylliannol briodol mewn systemau bwyd er mwyn gallu gweithio tuag at ddiogeledd bwyd i bawb. Mae'n rhoi gwerth ar dreftadaeth, cof a'r ymdeimlad o berthyn sy'n gysylltiedig â bwyd yn ogystal â manteision iechyd bwyta bwyd sy'n mynegi hunaniaeth ddiwylliannol rhywun ac sy'n gyfarwydd.<br><br>Un ystyriaeth bwysig yw'r goblygiadau iechyd ar raddfa poblogaeth. Mae poblogaeth De Asia mewn perygl uwch o ddatblygu clefyd y galon a diabetes math 2 o gymharu â |

[10] https://www.healthystart.nhs.uk/healthcare-professionals/
[11] https://bmmmedicine.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12916-024-03380-5

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymdeimlad mwy croesawgar o gymuned.<br><br>•Cynlluniwyd y strategaeth i sicrhau bod modd i bawb yn Rhondda Cynon Taf gael mynediad at fwyd. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol i sicrhau bod bwyd sy'n ddiwylliannol briodol hefyd yn hygyrch.<br><br>•Ymgysylltu â chenedlaethau'r dyfodol: Mae demograffeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn newid. Mae cydnabod safbwyntiau amrywiol nawr yn creu sector treftadaeth sy'n adlewyrchu pawb a fydd yn ei alw'n gartref yn y dyfodol.<br><br>•Yn rhan o weithrediad y strategaeth yma, partneru gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd ym maes diwylliant bwyd ac arferion cynhwysiant i gryfhau adnoddau ac osgoi agwedd arwynebol | grwpiau ethnig eraill. Mae poblogaethau Du Affricanaidd a Charibïaidd mewn mwy o berygl o brofi pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon a strôc. Mae gweini ystod eang o opsiynau bwyd gan gynnwys opsiynau diwylliannol a ffefrir yn ehangu cyfleoedd i gwsmeriaid ddewis bwydydd cyfarwydd a mwy iach y maen nhw'n eu mwynhau[12].<br><br>Mae ystadegau demograffig yn dangos mai dyma gyfrannau'r grwpiau ethnig yn Rhondda Cynon Taf:<br><br>- 96.7% Gwyn<br>- 1.5% Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig<br>- 1% Grwpiau ethnig cymysg neu luosog<br>- 0.4% Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd<br>- 0.2% Grŵp ethnig arall<br><br>Er bod amrywiaeth ddiwylliannol Rhondda Cynon Taf yn isel, mae'n bwysig cynnwys anghenion yr holl drigolion mewn polisïau ac ymyraethau i sicrhau bod modd i bawb fyw'n dda yn Rhondda |

[12] https://www.cdc.gov/food-service-guidelines-toolkit/php/strategize-act/cultural-food-preferences.html#:~:text=Serving%20culturally%20preferred%20food%20options,about%20and%20enjoy%20different%20cuisines.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cynon Taf.<br><br>Enghreifftiau o brosiectau blaenorol a pharhaus:<br><br>Yn dilyn Storm Bert, cymerodd Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf ran mewn dathliad o ddiwylliant bwyd yn Rhondda Cynon Taf i ddod â’r gymuned ynghyd eto ar ôl i’r llifogydd effeithio ar gynifer. Roedd yr achlysur yn cynnig bwyd o wahanol ddiwylliannau trigolion Cwm Cynon gan gynnwys bwyd Mecsicanaidd, bwyd Indiaidd a Chawl Cymreig traddodiadol a wnaed â chynnyrch lleol. Roedd yr achlysur yn annog pobl i roi cynnig ar fwydydd newydd a dathlu hanes a diwylliannau amrywiol y rhai sy'n byw o'u cwmpas.<br><br>At hynny, mae grantiau sy’n ymwneud â bwyd gan y Cyngor wedi cefnogi prosiectau megis addysgu cymunedau i dyfu llysiau Affro-Caribïaidd fel Callaloo ac okra, oherwydd gall fod yn anodd dod o hyd i lysiau o bwysigrwydd diwylliannol yn y cymoedd gyda llawer o bobl yn gorfod teithio i Gaerdydd i'w prynu. |

Atodiad 2

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr gael mynediad i fwynhau bwyd doed a ddelo ac mae'n deall bod bwyd, yn achos nifer o grefyddau, nid yn unig yn rhan o'u credoau ond hefyd bod rhai bwydydd yn cael eu hystyried yn sanctaidd a/neu wedi'u gwahardd. | O'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, sydd wedi llywio datblygiad y Strategaeth, ni fu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.<br><br>Serch hynny, bydd tystiolaeth yn cael ei harchwilio ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth yma. |
| **Rhyw**<br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr i fwynhau bwyd ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. Serch hynny, mae'r strategaeth a'r bartneriaeth yn cydnabod bod modd i sefydliadau cymunedol sy'n rhywedd-benodol ddarparu cymorth i gael pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd. | O'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, sydd wedi llywio datblygiad y Strategaeth, ni fu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>*(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr i gael mynediad i fwynhau bwyd ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | O'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, sydd wedi llywio datblygiad y Strategaeth, ni fu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.<br><br>Serch hynny, bydd tystiolaeth yn cael ei harchwilio pan fydd prosiectau ac ymyraethau penodol yn cael eu darparu o dan y themâu arfaethedig yn y Strategaeth. |

Atodiad 2

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr i gael mynediad i fwynhau bwyd. | Gallai camau gweithredu yn y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy fod o fudd i aelodau'r Lluoedd Arfog os ydyn nhw'n rhannu nodweddion eraill a fydd yn elwa ond cydnabyddir nad yw hyn yn annibynnol ar ei gilydd. |
| **Cynhalwyr**<br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Niwtral | Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr fwynhau bwyd ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Gweler uchod |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Gan y bydd y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yn effeithio'n niwtral neu'n gadarnhaol ar bob grŵp o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, does dim rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i gynyddu ymgysylltiad ag amrywiaeth ddiwylliannol ymhlith plant a phobl ifainc; gwella hygyrchedd ein treftadaeth, a diogelu a chadw ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ydych chi'n hapus bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad? Ydw ■ Nac ydw ☐

Enw: Rhiannon Edwards

Swydd: Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy

Dyddiad: Chwefror 2025

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.
NODWCH - Mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.

Atodiad 2

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 o Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Yn y pen draw, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau sy'n agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

Atodiad 2

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm**<br>*(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Cadarnhaol | Mae gan Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf gysylltiad materol â chreu system fwyd yn Rhondda Cynon Taf a fydd o fudd i bawb. Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth bod modd i bob person yn Rhondda Cynon Taf gael mynediad at fwyd fforddiadwy. Caiff hyn ei weld yn arbennig ym Mlaenoriaeth 3, sef mynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd.<br><br>Nod y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yw mynd i'r afael â thlodi bwyd trwy ddull cydweithredol o gymorth bwyd cymunedol ac eiriolaeth. Mae'n mynd ati i geisio:<br><br>- Cefnogi'r rhai ar incwm isel neu dlodi incwm drwy ddatblygu'r rhwydwaith o gymorth bwyd cymunedol yn Rhondda | Mae Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf eisoes wedi gweithio gyda sefydliadau i ddarparu cymorth ar gyfer y prosiectau bwyd cymunedol.<br><br>Caiff diffyg diogeledd bwyd ei ddiffinio fel cyflwr economaidd a chymdeithasol ar lefel aelwyd o fynediad cyfyngedig neu ansicr at fwyd digonol.<br><br>Yn Rhondda Cynon Taf mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 23.4% yn byw mewn tlodi o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru sef 21.5%.[13] Mae disgwyliad oes o ran y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn is ac maen nhw'n treulio rhagor o amser yn wynebu iechyd gwael na'r sawl |

[13] Arolwg Cenedlaethol Cymru

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynon Taf a thrwy rannu arferion gorau a gwybodaeth<br><br>- Eirioli dros bolisïau a rhaglenni newydd sy'n gwella diogeledd bwyd i drigolion trwy fod yn llais ar y cyd mewn ymateb i ymgynghoriadau polisi | sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig.[14] Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, yn dangos fod gyda Rhondda Cynon Taf y trydydd nifer uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, a'i fod ymhlith y 50% Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALI, 2019). Ar ben hynny, mae 22% o'r disgyblion yn y Fwrdeistref Sirol yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 20.3% yng Nghymru (Cyfrifiad Ysgolion, Llywodraeth Cymru, 2023.)<br>Mae sefydliadau cymunedol yn darparu prosiectau bwyd cymunedol hanfodol ar draws Rhondda Cynon Taf.<br><br>Camau gweithredu yn y strategaeth |
| **Cyfoeth Bach a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Cadarnhaol. | Gweler uchod | Gweler uchod |

[14]https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbyindexofmultipledeprivationimd/2018to2020

Atodiad 2

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Cadarnhaol. | Gweler uchod | Gweler uchod |

Atodiad 2

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Cadarnhaol. | Nod Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf yw newid y system fwyd yn Rhondda Cynon Taf er budd yr holl drigolion ni waeth ble maen nhw'n byw.<br><br>Mae un cam gweithredu yn ymwneud â datblygu ac ehangu'r rhwydwaith o brosiectau bwyd cymunedol (banciau bwyd a phantrïoedd) i sicrhau, ni waeth ble rydych chi'n byw yn Rhondda Cynon Taf, bod cymorth bwyd hygyrch yn lleol. | Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, yn dangos fod gyda Rhondda Cynon Taf y trydydd nifer uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, a'i fod ymhlith y 50% Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALI, 2019).<br><br>Camau gweithredu yn y strategaeth fwyd. |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Cadarnhaol | Gweler uchod | Gweler uchod |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Cadarnhaol. | Gweler uchod | Gweler uchod |

Atodiad 2

## ADRAN 4 - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Yn y broses o ddatblygu ac ymgynghori ar y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, doedd dim tystiolaeth i awgrymu bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar grŵp gwarchodedig.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Yn y broses o ddatblygu ac ymgynghori ar y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, doedd dim tystiolaeth i awgrymu bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar grŵp gwarchodedig.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

Dyma'r ddemograffeg ar gyfer Rhondda Cynon Taf, yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael:

- Poblogaeth: 237,700 (cynnydd o 1.4% ers 2011).
- Dosbarthiad poblogaeth: Mae gan yr ardal ddosbarthiad oedran amrywiol, gyda chyfran nodedig o'r boblogaeth yn y grŵp oedran gweithio.
- Rhywedd: Mae mwyafrif bychan o ferched, gyda 51.1% o'r boblogaeth yn disgrifio'u hunain yn ferched.
- Hunaniaeth ddiwylliannol: Ganed 90% o'r boblogaeth yng Nghymru, ac mae 12% o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg.
- Grŵp ethnig: Gwyn – 96.7%; Asiaidd - 1.5%; Du - 0.4%; Cymysg - 1.0%; Arall – 0.3%.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Yn y broses o ddatblygu ac ymgynghori ar y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, doedd dim tystiolaeth i awgrymu bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar grŵp gwarchodedig.

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol? Ydw ☒ Nac ydw ☐

Atodiad 2

## ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Mae hon yn strategaeth 5 mlynedd, a'r Grŵp Llywio a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf fydd yn ysgogi o ran rhoi hyn ar waith. Bydd monitro'r ymgysylltu a chynnydd o ran y Strategaeth yn digwydd yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y strwythur isod. Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am gasglu cofnodion cynnydd a'u monitro yn unol â phob cyflawniad sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredu. Bydd adrodd ynghylch cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth yn digwydd gan ddilyn yr amserlen yma; yn chwarterol i Rwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf, ac yn flynyddol i'r Grŵp Llywio Cymorth Cymunedol, a Chabinet a Phwyllgorau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (fel sy'n berthnasol), yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol gan gyllidwyr allanol.

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Bydd y Strategaeth Bwyd Cynaliadwy 2024-2030 yn cael ei defnyddio a'i rhoi ar waith yn weithredol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd cyflwyno fesul cam fel hyn yn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni newid cadarnhaol ar unwaith ond hefyd yn cyflawni ei amcanion yn gyson dros y cyfnod cyflawni o bum mlynedd.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu gan Grŵp Llywio a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd Rhondda Cynon Taf ddwywaith y flwyddyn.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Mae gwaith monitro a gweithredu parhaus y Strategaeth gyffredinol yn amodol ar y Cynllun Gweithredu a bydd yn cael ei oruchwylio gan y rhwydwaith a thrwy'r strwythur adrodd a nodir yn 5a.

Atodiad 2

**ADRAN 6 - ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn diffiniad y 'Penderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rhondda-cynon-taf.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried ystyriaethau amrywiaeth ac economaidd-gymdeithasol lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau'r Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| Ychwanegwch ragor o dystiolaeth ategol ar gyfer y pwynt sydd wedi'i gynnwys | 11/03/2025 | Mae tystiolaeth ac erthyglau ategol wedi'u hychwanegu |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

Atodiad 2

## ADRAN 6 - CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylid cynnwys y crynodeb yma yn adran effaith cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

## ADRAN 7 - AWDURDODI

Swyddog Arweiniol: Rhiannon Edwards

Enw:

Swydd:

Dyddiad:

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw addasiadau ■
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Louise Davies

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaeth

Dyddiad:

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.